

Agenda – Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd	Graeme Francis – Clerc y Pwyllgor
Dyddiad: Dydd Mawrth, 7 Tachwedd 2017	Kath Thomas – Dipwrwy Glerc 0300 200 6565
Amser: 09.15	SeneddDeisebau@cynulliad.cymru

Preifat

- 1 **Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant**
(Tudalennau 4 – 31)
- 2 **Deisebau newydd**
 - 2.1 P-05-781 Cymuned Port Talbot yn erbyn yr Archgarchar
(Tudalennau 32 – 42)
 - 2.2 P-05-782 Adeiladu Ffordd Osgoi Cas-gwent i Gael Gwared ar y Tagfeydd
oddi ar yr M48 i'r A48
(Tudalennau 43 – 48)
 - 2.3 P-05-783 Sicrhau Cydraddoldeb Cwricwlwm i Ysgolion Cyfrwng Cymraeg e.e.
Seicoleg TGAU
(Tudalennau 49 – 65)
- 3 **Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol**

Iechyd

- 3.1 P-04-682 Sgrinio Rheolaidd ar gyfer Diabetes Math 1 mewn Plant a Phobl
Ifanc
(Tudalennau 66 – 106)



Addysg

3.2 P-04-628 Mynediad at Iaith Arwyddion Prydain i bawb
(Tudalennau 107 – 108)

3.3 P-05-760 Atal TGAU Cymraeg gorfodol
(Tudalennau 109 – 111)

Yr Economi a'r Seilwaith

3.4 P-04-688 Gorsaf Bŵer Tata Steel ym Mhort Talbot
(Tudalennau 112 – 113)

3.5 P-05-738 Deiseb Gyhoeddus ar gyfer Ffordd Osgoi i Ddinas Powys
(Tudalennau 114 – 117)

3.6 P-05-748 Bysiau Ysgol i Blant Ysgol
(Tudalennau 118 – 119)

3.7 P-05-758 Cerflun i anrhydeddu Billy Boston
(Tudalennau 120 – 122)

3.8 P-05-776 Cydnabod tri chan mlwyddiant Williams Pantycelyn
(Tudalennau 123 – 126)

Cymunedau a Phlant

3.9 P-05-742 Peidiwch â gadael i Forsythia gau!
(Tudalennau 127 – 130)

Amgylchedd a Materion Gwledig

3.10 P-05-715 Gwahardd cynhyrchu, gwerthu a defnyddio maglau yng Nghymru
(Tudalennau 131 – 138)

3.11 P-05-733 Dim gweithredu pellach ar Barthau Perygl Nitradau (NVZ) yng
Nghymru o gwbl
(Tudalennau 139 – 142)

Eitem 4 – Sesiwn dystiolaeth ar gyfer 'Gwnewch y Nodyn Cyngor Technegol Mwynau yn ddeddf' a 'Galw i Mewn Pob Cais Cynllunio ar Gyfer Cloddio Glo Brig' (10.00–10.30)

- 4.1 P-04-472 Gwnewch y Nodyn Cyngor Technegol Mwynau yn ddeddf
(Tudalen 143)
- 4.2 P-04-575 Galw i Mewn Pob Cais Cynllunio ar Gyfer Cloddio Glo Brig
(Tudalennau 144 – 155)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 1

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 2.1

P-05-781 Cymuned Port Talbot yn erbyn yr Archgarchar

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan The Port Talbot Super Prison Protest Group, ar ôl casglu 1,263 o lofnodion ar-lein a 7,528 ar bapur – cyfanswm o 8,791 lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i beidio â rhyddhau na gwerthu tir i lywodraeth y DU i ddatblygu archgarchar ym Maglan.

Mae Llywodraeth y DU, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, yn cynnig adeiladu 'archgarchar' â lle i 1600 o ddynion ar rostir Baglan.

Mae'r safle yn agos at gartrefi a chyfleusterau lleol a busnesau lleol, a bydd yn rhoi straen sylweddol ar ffyrdd a gwasanaethau iechyd yn yr ardal. Mae'r safle mewn parth menter ac wedi'i ddynodi ar gyfer defnydd economaidd yn ogystal â bod mewn ardal lle y ceir perygl llifogydd.

Mae gan Gymru eisoes lawer o leoedd gwag yn y carchardai sydd ganddi ar hyn o bryd.

Byddai'r carchar hwn yn cyflwyno'r holl broblemau sy'n gysylltiedig â charchardai mawr ac ni chafwyd unrhyw warant gan y naill lywodraeth na'r llall ynglŷn â'r camau amddiffyn a fyddai'n cael eu rhoi ar waith i gynorthwyo Port Talbot i ymdopi â nifer mor fawr o garcharorion.

Nid oes unrhyw sicrwydd tymor hir y byddai'r carchar newydd yn parhau i gael ei neilltuo ar gyfer carcharorion categori C. Gellid ei newid yn y dyfodol i gadw troseddwy'r mwy peryglus.

Gall Port Talbot wneud yn well na hyn ac mae ein tref yn haeddu llawer mwy. A wnewch chi lofnodi'r ddeiseb a dweud wrth Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, DIM archgarchar ym Mhort Talbot?

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Aberafan

- Gorllewin De Cymru

Y carchar arfaethedig ym Maglan

Y Pwyllgor Deisebau | 7 Tachwedd 2017

Petitions Committee | 7 November 2017

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil:

Rhif y ddeiseb: P-05-781

Teitl y ddeiseb: Cymuned Port Talbot yn erbyn yr Archgarchar

Testun y Ddeiseb: Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i beidio â rhyddhau na gwerthu tir i lywodraeth y DU i ddatblygu archgarchar ym Maglan.

Mae Llywodraeth y DU, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, yn cynnig adeiladu 'archgarchar' â lle i 1600 o ddynion ar rostir Baglan.

Mae'r safle yn agos at gartrefi a chyfleusterau lleol a busnesau lleol, a bydd yn rhoi straen sylweddol ar ffyrdd a gwasanaethau iechyd yn yr ardal. Mae'r safle mewn parth menter ac wedi'i ddynodi ar gyfer defnydd economaidd yn ogystal â bod mewn ardal lle y ceir perygl llifogydd.

Mae gan Gymru eisoes lawer o leoedd gwag yn y carchardai sydd ganddi ar hyn o bryd.

Byddai'r carchar hwn yn cyflwyno'r holl broblemau sy'n gysylltiedig â charchardai mawr ac ni chafwyd unrhyw warant gan y naill lywodraeth na'r llall ynglŷn â'r camau amddiffyn a fyddai'n cael eu rhoi ar waith i gynorthwyo Port Talbot i ymdopi â nifer mor fawr o garcharorion.

Nid oes unrhyw sicrwydd tymor hir y byddai'r carchar newydd yn parhau i gael ei neilltuo ar gyfer carcharorion categori C. Gellid ei newid yn y dyfodol i gadw troseddwy'r mwy peryglus.

Gall Port Talbot wneud yn well na hyn ac mae ein tref yn haeddu llawer mwy. A wnewch chi lofnodi'r ddeiseb a dweud wrth Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, DIM archgarchar ym Mhort Talbot?

Y cefndir

Ar 22 Mawrth 2017, cyhoeddodd yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder mewn [datganiad ysgrifenedig](#) fod pedwar safle posibl wedi cael eu nodi ar gyfer carchardai newydd yng Nghymru a Lloegr. Roedd un o'r safleoedd hyn yng Nghastell-nedd Port Talbot. Nododd y byddai'r penderfyniadau terfynol ar y carchardai newydd yn ddarostyngedig i ganiatâd cynllunio, yn ogystal â gwerth am arian a fforddiadwyedd. Aeth ymlaen i nodi mai un o'r rhesymau dros adeiladu carchardai newydd oedd er mwyn cau hen garchardai a rhai sy'n orlawn.

Yn ystod [dadl yn neuadd San Steffan](#) ar 12 Medi 2017, dywedodd y Gweinidog carchardai, Sam Gyimah AS:

When assessing where to build new prisons, the Ministry of Justice worked closely with the Welsh Government to identify suitable sites for a new prison build in Wales. We undertook a comprehensive evaluation of more than 20 sites in south Wales, ensuring that various factors were taken into consideration, such as preference for sites located along the M4 corridor because of their accessibility and the travel time benefits they would bring.

After careful consideration, Port Talbot was selected as the best potential site for a new category C prison build in Wales. That was for a number of reasons, including the capacity of local infrastructure to support the prison and the potential to maximise the benefits of investment in the local community. In addition, the site is owned by the Welsh Government, who are supportive of our work to progress these plans. As I mentioned, supply and demand for prison places are misaligned. For example, we do not have enough category C prison places in south Wales; the proposed prison at Port Talbot would address that shortfall.

Mae [pum carchar yng Nghymru](#) ar hyn o bryd (mae Prescoed yn rhan o garchar Brynbuga):

- [Berwyn](#) (Wrecsam)
- [Caerdydd](#)
- [Parc](#) (Pen-y-bont ar Ogwr)
- [Abertawe](#)
- Brynbuga/Prescoed

Y carchar diweddaraf a agorwyd yng Nghymru yw Carchar Ei Mawrhydi Berwyn, Wrecsam. Fe'i hgorwyd ym mis Chwefror 2017. Bydd yn darparu dros 2,000 o leoedd pan fydd yn gwbl weithredol. Nid oes unrhyw garchardai i fenywod yng Nghymru, nac unrhyw garchardai ar gyfer y troseddwr sy'n peri'r risg uchaf.

Er bod y rheini sy'n dadlau o blaid y carchar arfaethedig ym Maglan wedi pwysleisio'r manteision economaidd, ymddengys fod cryn wrthwynebiad yn lleol. Mae'r materion a godwyd gan wrthwynebwyr y cynnig yn cynnwys yr effaith ar y gymuned leol a busnesau lleol, yr effaith ar wasanaethau cyhoeddus, trafniadaeth a pha mor addas yw'r tir ei hun ar

gyfer gwaith adeiladu. Nodwyd hefyd fod cyfyngiadau ar ddefnydd y tir a allai beri problem i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder pe bai'n penderfynu bwrw ymlaen â'r datblygiad. Codwyd materion ehangach hefyd, fel pa mor effeithiol yw carchardai mwy o faint wrth leihau aildroseddu.

Camau Gweithredu Llywodraeth Cymru

Wrth ymateb i [gwestiwn brys](#) gan David Rees AC ar 22 Mawrth 2017, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant:

Rwyf wedi cael trafodaethau uniongyrchol â Gweinidog carchardai'r DU ynglŷn â'r safle arfaethedig ar gyfer datblygu carchar newydd ym Mhort Talbot. Mae gan y cynnig hwn botensial i gynnig cyfleuster modern, addas i'r diben i dde Cymru, sy'n canolbwyntio ar adsefydlu, a gwneud ein cymunedau'n fwy diogel.

Aeth ymlaen i ateb sawl cwestiwn ynglŷn â'r mater gan Aelodau eraill.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ysgrifennu at y Cadeirydd (Hydref 2017), gan gadarnhau ei safbwynt blaenorol a'i bod yn cydnabod cryfder barn y deisebwyr. Mae'r llythyr yn nodi mai Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am garchardai, ac y bydd unrhyw benderfyniad i fwrw ymlaen â'r datblygiad yn ddarostyngedig i'r broses gynllunio, a fydd yn rhoi cyfle i drigolion roi eu barn i gynghorwyr.

Camau Gweithredu Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Ers mis Mawrth 2017, codwyd y mater hwn gan Aelodau'r Cynulliad sawl gwaith yn y Siambr ac mewn cwestiynau ysgrifenedig. Mae'r materion a godwyd yn cynnwys effaith carchar newydd ar wasanaethau lleol mewn meysydd datganoledig gan gynnwys iechyd, gofal cymdeithasol, tai, addysg a thrafnidiaeth. Mae Aelodau'r Cynulliad hefyd wedi gofyn a fydd y lleoedd carchar ychwanegol yn cael eu defnyddio i ddarparu llety i garcharorion o Gymru. Cyhoeddodd Canolfan Llywodraethiant Cymru [waith ymchwil](#) ar 22 Mawrth 2017 a oedd yn nodi y byddai mwy na digon o leoedd carchar yng Nghymru i garcharorion o Gymru pe bai'r carchar arfaethedig ym Maglan yn mynd rhagddo.

Ar 20 Medi 2017, roedd dadl gan Blaid Cymru yn trafod archgarchardai yn y Senedd. Roedd y cynnig, ymhlith pethau eraill, yn galw ar Lywodraeth Cymru i wrthwynebu adeiladu'r carchar. Yn ystod y ddadl, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant:

Cyfrifoldeb Llywodraeth y DU yw carchardai. Cysylltodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder â Llywodraeth Cymru fel rhan o ymarfer ledled Cymru a Lloegr i weld a oeddem yn gwybod am unrhyw dir y gellid ei ddatblygu ar gyfer carchar o'r maint hwn. Fe wnaethom ddarparu rhestr o 20 safle. [...] Rydym yn darparu'r math hwn o wasanaeth yn rheolaidd i bob busnes a phob datblygyr.

Aeth ymlaen i nodi nad oedd Llywodraeth Cymru yn rhan o'r broses o ddewis Baglan fel y safle a ffefrir ar gyfer carchar newydd:

Llywydd, rydym wedi rhoi dwy drwydded i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wneud gwaith ar y tir hwnnw. Mae'r rhain yn cynnwys mesurau lliniaru ecolegol ac unwaith eto, mae hyn yn arfer cyffredin. Mae

datblygwyr am wybod beth yw cyfansoddiad y tir cyn cyflwyno cais cynllunio. Hefyd, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi gofyn inni drafod cytundeb opsiwn ar gyfer y tir. Nid ydym wedi gwerthu'r tir i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder na dod i gytundeb ynglŷn â gwerthu nac wedi trafod ei werth. Nid yw'n fait accompli fel y mae llawer wedi awgrymu yn y lle hwn ac yn allanol, fel y clywsom. Os cyflwynir cynigion eraill ar gyfer y tir, nid oes dim i'n hatal rhag asesu manteision economaidd hynny a derbyn cynnig da.

Croesawodd Ysgrifennydd y Cabinet fwriad y Weinyddiaeth Gyfiawnder i gynnal digwyddiad deuddydd i'r gymuned hefyd a fydd yn rhoi cyfle i ymwelwyr a thrigolion weld y cynigion a gwneud sylwadau arnynt cyn i gais cynllunio ffurfiol gael ei gyflwyno.

Sylw yn y cyfryngau

Mae'r mater wedi cael cryn dipyn o sylw yn y cyfryngau. Mae lincs i nifer o erthyglau isod:

Newyddion y BBC, 22 Mawrth 2017, [*New prison in Port Talbot announced by Ministry of Justice*](#)

Newyddion y BBC, 21 Awst 2017, [*Public safety 'priority' in Baglan prison plans, MoJ says*](#)

Newyddion ITV, 23 Awst 2017, [*Former inmate criticises plans for a new 'super prison' in Port Talbot*](#)

Newyddion y BBC, 20 Medi 2017, [*Port Talbot prison should be moved to Swansea, says MP*](#)

Newyddion y BBC, 11 Hydref 2017, [*Baglan prison: Planned site's restriction concern*](#)

Newyddion y BBC, 25 Hydref 2017, [*Port Talbot prison: Petition against Baglan plan presented*](#)

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol, fodd bynnag, nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau na'u diwygio fel arall o reidrwydd i adlewyrchu newidiadau dilynol.

Carl Sargeant AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
Cabinet Secretary for Communities and Children



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-781
Ein cyf/Our ref CS/01367/17

David J Rowlands AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

SeneddDeisebau@Cynulliad.Cymru

11 Hydref 2017

Annwyl David

Diolch am eich llythyr dyddiedig 21 Medi yn dweud wrthyf am ddeiseb a ddaeth i law'r Pwyllgor gan The Port Talbot Super Prison Protest Group.

Rwy'n cydnabod pa mor gryf yw safbwyntiau'r protestwyr.

Mae carchardai yn gyfrifoldeb i Lywodraeth y DU. Gofynnodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder a oedd Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o unrhyw dir yr oedd posib ei ddatblygu. Roedd hyn yn gwestiwn a ofynnwyd drwy Gymru a Lloegr. Rydym yn ymateb i ymholiadau fel hyn gan ddatblygwyr tebygol yn aml, ac felly, dyma roi rhestr o ugain safle posibl iddynt gael eu hystyried.

Bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn penderfynu ar safle i adeiladu carchar a ph'un a ddylid gwneud gwaith pellach ar y safle. Maent yn mynd i wrando ar safbwyntiau'r bobl leol mewn ymgynghoriad deuddydd gyda'r gymuned.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Carl.Sargeant@llyw.cymru
Correspondence.Carl.Sargeant@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 38
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Os bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn penderfynu wedi hynny i fwrw ymlaen â chais cynllunio, caiff y cais hwnnw ei ystyried gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot. Yn unol â'r drefn ar gyfer pob cais cynllunio, caiff y preswylwyr gyfle i gyflwyno eu safbwyntiau gerbron y cynghorwyr yn rhan o'r broses honno.

Yn gywir

A handwritten signature in cursive script, appearing to read 'Carl Sargeant'.

Carl Sargeant AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
Cabinet Secretary for Communities and Children

**P-05-781 Port Talbot Community Against the Super Prison –
Correspondence from the petitioner to the Committee, 26.10.17**

Firstly, we, the community of Neath Port Talbot would like to thank the petitions committee for accepting our petition against the proposed Ministry of Justice development of land at Baglan Moors in Port Talbot to build a prison to house up to 1600 inmates.

We would like to submit the following response:

At present the Welsh Assembly Government are still the owners of the land at the proposed site at Baglan Moors, so our efforts are concentrated in this direction.

The impact of a prison on the town of Port Talbot has not been considered by the Welsh Assembly Government.

We are not a huge town, our resources have been slashed year after year. We don't even have a police station to serve the town.

Our hospital services have also been cut to the point where we only have a nurse led local accident centre, not a fully functioning A & E. The nearest A & E departments are at Morriston, Swansea & Bridgend.

Should the proposed prison go ahead, an area already suffering high employment will suffer even more as the proposed prison will be a rehabilitation centre? Inmates would be allowed limited daily release for training placements/work experience etc.... placements and training that should go to local residents not inmates.

Local housing stock from housing associations etc. would also be affected as released inmates may choose to stay in Port Talbot after release. Their families could relocate here, pushing the private rental market prices up as private landlords take advantage of the increase in demand. This would push locals out of the area due to higher rents & less rental properties available.

Some local industries will suffer as it is well documented that large prisons such as this one proposed house factories/industries inside them, which will take work away from local businesses. These industries include metal working, machine shop producing uniforms for national businesses, laundry services for large chain hotels around the UK. All of this will have a detrimental effect on the local economy here in Port Talbot.

There has been significant ground work done to improve the drainage in this well documented flood plane for many years. This has resulted in the flood risk

categorisation of that area to be downgraded to a lesser risk of flooding. This was done in the same period that the Welsh Assembly Government offered up Baglan Moors as a potential site to the MoJ. The re-categorisation was announced just days before the prison news became public knowledge.

As there are no firm statements that either Swansea or Cardiff prisons are closing any time soon..... WHY is there a need for this new prison in Port Talbot?? Unless of course the First Minister, Mr Sergeant & Mr Skates know differently??

It would appear Port Talbot would be the last to know in any case.

There is a covenant on the land, and as it stands a prison goes against two of the restrictions:

Schedule 2 (a): Not to use the property hereby conveyed or any part thereof other than as an industrial park in accordance with the planning permissions granted in respect of the said property.

And:

Schedule 3: The Agency shall not use the (demised premises, property) or permit the same to be used for offensive, noisy or dangerous trade business manufacture or occupation of for any purpose or in the manner which may be a nuisance to the Agency or the owners or occupiers of neighbouring or adjacent premises.

The infrastructure of Port Talbot despite investment in the last few years will not cope with the increased traffic, especially during the construction period which would last in excess of 24 months. Ysgol Bae Baglan has caused enough problems with traffic, the new Welsh Medium School which opens in 2018 will add to this problem. A prison, during and after construction will make the problem unimaginable.

Which brings us onto the next point. Due to the land being on what is called a 'natural soak', a form of construction called pile driving will have to be used to ensure any building on this land has secure foundations due to the water levels. A build of the magnitude of a massive prison and required storage/parking facilities could and probably would make subsidence issues already experienced by the local residents dramatically more severe. Would the Welsh Assembly Government be responsible for compensating these residents as and when these subsidence problems occur as they would be caused as a direct result of the Welsh Assembly Government selling/releasing the land to the MoJ??

That the Cabinet Secretary for Communities & Children Mr K Skates even considers such a site as Baglan Moors as suitable for a prison needs to be questioned closely. In the response laid out above it is more than obvious that Port Talbot stands to lose more than it will gain from this proposed prison being built in the town.

We want to grow as an industrial/manufacturing town. We need to build for future generations to come, not leave them the legacy of a prison that will impact the town for at least the next 60 years.

As a town we are prepared to fight this proposal on every level, but The Welsh Assembly can stop this now by listening to the people of Port Talbot, over 8,000 signatures show that the majority of the town are against this.

Please do not release or sell this land to the Ministry of Justice, listen to the people of the town and put a stop to this proposal to build this prison here.

P-05-782 Adeiladu Ffordd Osgoi Cas-gwent i Gael Gwared ar y Tagfeydd oddi ar yr M48 i'r A48

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Jez Becker, ar ôl casglu 201 o lofnodion ar-lein.

Geiriad y ddeiseb:

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i ymdrin yn ymarferol â'r broblem tagfeydd ar yr A48 drwy Gas-gwent unwaith ac am byth.

Mae lleihau'r doll ar Bont Hafren yn cynnig cyfle anferthol am dwf yn Sir Fynwy, Fforest y Ddena a de-orllewin Cymru. Fodd bynnag, mae seilwaith y ffordd yn annigonol. Mae'r A48 eisoes yn dioddef tagfeydd ac ansawdd aer gwael drwy dref Cas-gwent. Gyda'r ystadau tai newydd yn Sir Fynwy a Fforest y Ddena, mae'r cynigion presennol yn methu, mewn modd annerbyniol, i hwyluso twf.

Mae'r cynllun hwn wedi bod yn ddyhead ers y 1960au ac oni bai y bydd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o'r diwedd yn cydweithredu ac yn ymrwymo, yna bydd y ffyniant economaidd sydd o fewn cyrraedd yn cael ei atal, gan adael, yn lle hynny, i ansawdd bywydau preswylwyr ddirywio a llesteirio datblygiad economaidd cynaliadwy.

Gwybodaeth ychwanegol:

Enghraifft dda o sut mae'r mater hwn wedi cael ei esgeuluso gan bob cangen o lywodraeth yw bod chwaer ddeiseb wedi'i chyflwyno i Lywodraeth y DU gan ei bod wedi gwrthod y gwreiddiol gan ddweud ei fod yn fater i Gymru yn unig.

Rydym yn gofyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru sicrhau nad yw'r llwybr trafnidiaeth hanfodol hwn yn dod yn syrthio i'r fagl o gael ei basio i ochr arall y ffin.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Mynwy
- Dwyrain De Cymru

P-05-782 Adeiladu Ffordd Osgoi Cas-gwent i Gael Gwared ar y Tagfeydd oddi ar yr M48 i'r A48

Y Pwyllgor Deisebau | 07 Tachwedd 2017
Petitions Committee | 07 November 2017

Briff Ymchwil:

Rhif y ddeiseb: [P-05-782](#)

Teitl y ddeiseb: Adeiladu Ffordd Osgoi Cas-gwent i Gael Gwared ar y Tagfeydd oddi ar yr M48 i'r A48

Testun y Ddeiseb:

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i ymdrin yn ymarferol â'r broblem tagfeydd ar yr A48 drwy Gas-gwent unwaith ac am byth.

Mae lleihau'r doll ar Bont Hafren yn cynnig cyfle anferthol am dwf yn Sir Fynwy, Fforest y Ddena a de-orllewin Cymru. Fodd bynnag, mae seilwaith y ffordd yn annigonol. Mae'r A48 eisoes yn dioddef tagfeydd ac ansawdd aer gwael drwy dref Cas-gwent. Gyda'r ystadau tai newydd yn Sir Fynwy a Fforest y Ddena, mae'r cynigion presennol yn methu, mewn modd annerbyniol, i hwyluso twf.

Mae'r cynllun hwn wedi bod yn ddyhead ers y 1960au ac oni bai y bydd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o'r diwedd yn cydweithredu ac yn ymrwymo, yna bydd y ffyniant economaidd sydd o fewn cyrraedd yn cael ei atal, gan adael, yn lle hynny, i ansawdd bywydau preswylwyr ddirywio a llesteirio datblygiad economaidd cynaliadwy.

Gwybodaeth ychwanegol:

Enghraifft dda o sut mae'r mater hwn wedi cael ei esgeuluso gan bob cangen o lywodraeth yw bod chwaer ddeiseb wedi'i chyflwyno i Lywodraeth y DU gan ei bod wedi gwrthod y gwreiddiol gan ddweud ei fod yn fater i Gymru yn unig.

Rydym yn gofyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru sicrhau nad yw'r llwybr trafndiaeth hanfodol hwn yn dod yn syrthio i'r fagl o gael ei basio i ochr arall y ffin

Cefndir

Llywodraeth Cymru, fel yr awdurdod priffyrdd ar gyfer y rhwydwaith traffyrdd a chefnffyrdd yng Nghymru, sy'n gyfrifol am yr A48 drwy Gas-gwent. Mae'n disgrifio'r A48 fel ffordd

strategol yn ne Cymru sy'n cysylltu de-orllewin Cymru â Lloegr. Asiant Cefnffyrdd De Cymru (SWTRA) sy'n gyfrifol am reoli, cynnal a chadw a gwella cefnffyrdd yn ne Cymru ar ran Llywodraeth Cymru.

Datblygiad lleol a chynllunio trafndiaeth lleol

Mae [Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig](#) Cyngor Sir Fynwy yn rhestru llwybr cynllun Ffordd Osgoi Allanol Cas-gwent posibl i'w diogelu rhag datblygiadau a fyddai'n debygol o beryglu eu gweithredu (Polisi MV10). Mae'r [Cynllun Trafnidiaeth Lleol](#) yn rhestru gwaith adeiladu Rhiw Hardwick a Ffordd Osgoi Cas-gwent newydd fel dyhead hirdymor o arwyddocâd lleol sy'n rhan o'r cynllun gwella traffig, amgylcheddol a diogelwch ffyrdd ehangach Cas-gwent.

Ansawdd aer

Mae Rhiw Hardwick ar yr A48 yng Nghas-gwent wedi'i ddynodi yn [Ardal Rheoli Ansawdd Aer](#) (AQMA) oherwydd allyriadau uchel o draffig, yn enwedig cerbydau nwyddau trwm sy'n teithio i fyny'r bryn. Mae [Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer Cas-gwent](#) 2011 Cyngor Sir Fynwy yn nodi:

The possibility of a bypass for Chepstow has been investigated a number of times over the years. [...]

This option had by far the greatest support at the stakeholder workshops, but there was also a reasonable amount of opposition. **A bypass would significantly improve air quality within the AQMA and would also improve safety and living conditions for those living on Hardwick Hill.** However, there would be negative impacts for people living alongside the bypass route. As the exceedance area only affects a small number of properties on Hardwick Hill, **the costs of a bypass would almost certainly outweigh the benefits. In addition there could be a negative impact on the economy of the town if through traffic is reduced.**

Mae [Adroddiad Cynnydd](#) rheoli ansawdd aer lleol 2016 Cyngor Sir Fynwy (PDF 3.16MB) yn nodi:

[...] air quality within the Chepstow Air Quality Management Area (AQMA) continues to exceed the nitrogen dioxide annual mean objective level at certain locations [including Hardwick Hill].

The Toll at the Severn Bridge has been identified as a contributing factor to air quality exceedances on the A48, Hardwick Hill, as a number of HGV's use the route to avoid paying the toll into Wales. **It was agreed at the meeting that petitioning to remove the Toll in 2017 was a priority.**

Tollau Croesfannau Hafren a safbwynt Llywodraeth y DU

Bu Llywodraeth y DU yn [ymgyngori](#) ar gynigion i leihau Tollau Croesfannau Hafren ym mis Ionawr 2017. Yn dilyn hynny, ym mis Gorffennaf 2017, [cyhoeddodd](#) y bydd y tollau yn cael eu diddymu i bob cerbyd erbyn diwedd 2018.

Gwrthododd Llywodraeth y DU [ddeiseb debyg yn galw am ffordd osgoi Cas-gwent](#) a gyflwynwyd ym mis Chwefror 2017 ar y sail:

It's about something that the UK Government or Parliament is not responsible for.

Your petition is about something that the Welsh Government is responsible for. That means that the UK Government and Parliament can't look into it. Responsibility for roads is devolved in Wales.

Camau gan Lywodraeth Cymru

Nid oes unrhyw gynlluniau ffordd osgoi yng Nghas-gwent wedi'u rhestru yng [Nghynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol](#) 2015 Llywodraeth Cymru na [llif o brosiectau arfaethedig](#) y Cynllun Buddsoddi Seilwaith.

Yn 2013/14, cynhaliodd SWTRA ymgynghoriad cyhoeddus yn gofyn am farn ar sut i wella ansawdd aer yng Nghas-gwent drwy wneud newidiadau i'r A48 ar ran Llywodraeth Cymru. Yn ôl yr [adroddiad cryno ar yr ymgynghoriad](#) (PDF 3.24MB), roedd 13 o'r 21 a ymatebodd yn awgrymu ffordd osgoi newydd fel ateb.

Yn ei lythyr at y Cadeirydd ynghylch y ddeiseb hon, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith:

[...] we have conducted a consultation exercise and study into Air Quality Assessment in Chepstow. The outcome of the consultation was that **there were five potential options, one of which was a bypass**. However, the full impact of the tolls being lifted along with new housing developments in the area, are yet to be fully realised.

Er nad oes unrhyw gynlluniau ffurfiol ar gyfer ffordd osgoi Cas-gwent wedi'u datblygu hyd yma, ystyriwyd y byddai cynllun o'r fath yn debygol o fod ar ddwy ochr ffin Cymru a Lloegr i'r de o Gas-gwent a Sedbury. Byddai angen cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a'r awdurdod priffyrdd perthnasol yn Lloegr. Yn ei lythyr, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Highways England i ddatblygu dull cydlynol ar draws y ffin i gynllunio i gael gwared ar y tollau, a fydd yn cynnwys yr effaith debygol ar y model traffig ar gyfer Cas-gwent, gan gynnwys yr A48.

Camau gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Mewn ymateb i gwestiwn ysgrifenedig (WAQ27340) gan Michael German ar ba ystyriaethau sydd wedi'u rhoi i ffordd osgoi Cas-gwent ym mis Gorffennaf 2003, [dywedodd](#) y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth ar y pryd, Andrew Davies (PDF 281KB):

Nid oes gan y Cynulliad unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i fwrw ymlaen â ffordd osgoi i Gas-gwent fel rhan o'i rhaglen gefnffyrdd. Yr oedd y Swyddfa Gymreig, fodd bynnag, wedi nodi ei chefnogaeth i brosiect menter breifat i godi ffordd osgoi allanol i Gas-gwent, ac wedi cynnig gwneud cyfraniad ariannol. Gan gydnabod hyn, sicrhodd y Swyddfa Gymreig, ynghyd â hen Gyngor Sir Gwent, ran o lwybr y ffordd osgoi arfaethedig drwy gyfrwng cytundebau gyda datblygwr, sydd wedi adeiladu ffordd ar linell y ffordd osgoi arfaethedig yn y pen de-orllewinol. Yr oedd y Swyddfa Gymreig hefyd o'r farn y byddai ffordd osgoi fewnol i Gas-gwent yn mynd i'r afael â'r materion diogelwch ar Riw Hardwick. Fodd bynnag, yn sgîl sylwadau oddi wrth y cyhoedd ac eraill, cafodd y cynigion hyn eu tynnu'n ôl. Mae is-raddio'r A48 drwy Gas-gwent yn cael ei ystyried ar hyn o bryd ac, os bwrir ymlaen â hynny, byddai'n caniatáu i'r awdurdod lleol dawelu'r traffig ar gefnffordd yr A48.

Mewn ymateb i gwestiwn (WAQ51322) gan Mike German ar ffordd osgoi Cas-gwent a chynlluniau ar gyfer tynnu statws cefnffordd yr A48 ym mis Chwefror 2008, [dywedodd](#) y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth ar y pryd, Ieuan Wyn Jones (PDF 26.2KB):

Nid oes gan Lywodraeth Cynulliad Cymru unrhyw gynlluniau ar gyfer ffordd osgoi Cas-gwent yn enwedig ers i'r Asiantaeth Priffyrdd dynnu statws yr A48 ar draws y ffin yn ddiweddar a'i throsglwyddo'n ôl o dan reolaeth yr awdurdod lleol, gan ei dileu o'r rhwydwaith priffyrdd strategol.

Mae ein barn yn debyg i farn yr Asiantaeth Priffyrdd ar bwysigrwydd strategol yr A48 / A466 yng Nghasgwent. Ein polisi yw tynnu statws y ffyrdd gan eu dileu o'r rhwydwaith priffyrdd strategol yng Nghymru a galluogi Cyngor Sir Fynwy i reoli'r ffyrdd fel y gwelant orau. Os bydd hyn yn mynd rhagddo bydd yn rhaid i Gyngor Sir Fynwy gytuno ar y newid statws a'r ffaith mai'r Cyngor fydd yr awdurdod priffyrdd cyfrifol.

Yn dilyn [cwestiwn brys](#) yn y Cyfarfod Llawn ynghylch ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar barhau i godi tollau ar y Bont Hafren ym mis Ionawr 2017, dywedodd Nick Ramsay:

[...mae] ffyrdd o amgylch ardal Croesfannau Hafren, megis yng Nghas-gwent, yn fy etholaeth i, er enghraifft, sydd mewn gwirionedd yn cludo llawer o draffig—llawer mwy nag y dylen nhw—gan fod pobl ar hyn o bryd yn osgoi'r system doll. Felly, a ydych chi wneud cynnal unrhyw asesiad, neu a ydych chi'n bwriadu cynnal unrhyw asesiad, o effaith gostwng y tollau—i'r hyn yr ydych chi'n ei gynnig nawr, ond, gobeithio, yn y dyfodol, mwy fyth—ac effaith symiau is o draffig ar y ffyrdd cyfagos mewn ardaloedd megis Cas-gwent [...].

Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith:

Roeddwn i'n falch o weld arweinydd cyngor Sir Fynwy yn cydnabod yr heriau, ond hefyd y cyfleoedd y byddai cael gwared ar y tollau ar y Croesfannau Hafren—neu ostwng y tollau o leiaf—yn ei gyflwyno i'r rhanbarth cyfan, nid dim ond yr ardal y mae'n ei gynrychioli.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

Ken Skates AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith
Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-782
Ein cyf/Our ref KS/03374/17

David John Rowlands AC
Cadeirydd – y Pwyllgor Deisebau

government.committee.business@llyw.cymru

16 Hydref 2017

Annwyl David

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 20 Medi ynghylch Deiseb P-05-782: Adeiladu Ffordd Osgoi Cas-gwent i Gael Gwared ar y Tagfeydd oddi ar yr M48 i'r A48.

Rydym yn cydweithio â Highways England i ddatblygu cynllun cydlynol trawsffiniol ar gyfer diddymu'r tollau. Gan fod nifer uchel o lorïau HGV a cherbydau eraill yn defnyddio'r llwybr hwn i osgoi'r tollau, byddwn yn ystyried yr effaith debygol ar y model traffig ar gyfer Gas-gwent gan gynnwys yr A48.

Rwy'n gallu cadarnhau hefyd ein bod wedi cynnal ymgynghoriad ac astudiaeth ar ansawdd aer Cas-gwent. O ganlyniad i'r ymgynghoriad nodwyd pum opsiwn posibl, a ffordd osgoi oedd un ohonynt. Fodd bynnag, nid ydym yn gwybod eto beth fydd effaith lawn diddymu'r tollau a chodi tai newydd yn yr ardal.

Yn sgil canfyddiadau'r asesiad ansawdd aer, byddwn yn parhau i gydweithio â'r cyngor lleol, datblygwyr ac â rhanddeiliaid er mwyn gwella ansawdd yr aer a gwneud yr A48 yng Nghas-gwent a'i chyffiniau yn fwy diogel.

Yn gywir,

Ken Skates AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith
Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 48

P-05-783 Sicrhau Cydraddoldeb Cwricwlwm i Ysgolion Cyfrwng Cymraeg e.e. Seicoleg TGAU

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Chris Evans, ar ôl casglu 652 o lofnodion ar-lein.

Geiriad y ddeiseb:

Rwyf yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i atal Cymwysterau Cymru rhag parhau i wahaniaethu yn erbyn dysgwyr cyfrwng Cymraeg, a sicrhau cydraddoldeb ieithyddol o ran cwricwlwm ysgol. Yn 2015, penderfynodd CBAC ollwng Seicoleg TGAU oherwydd niferoedd ymgeiswyr cymharol fach (37 canolfan – 5 yn rhai cyfrwng Cymraeg gyda 144 ymgeisydd cyfrwng Cymraeg bob blwyddyn). Oherwydd hyn, rhoddwyd gwahoddiad gan Gymwysterau Cymru (CC) i'r Cyrff Dyfarnu Saesneg; AQA, OCR, Pearson-Edexcell, gynnig y pwnc hwn, a rhai eraill e.e. Economeg, yng Nghymru.

Yn anffodus, ac yn anghrediniol, ni roddwyd unrhyw bwysau arnynt i gynnig y pynciau yma yn y Gymraeg. Ymateb Gymwysterau Cymru i hyn yw dweud y byddai'r Cyrff Saesneg yn gwrthod cynnig pynciau yng Nghymru yn gyfan gwbl pe tase nhw yn cael eu gorfodi i gynnig opsiwn Cymraeg, a bod CC yn ceisio sicrhau 'y dewis ehangaf o bynciau i ddysgwyr Cymru' (Cylchlythyr CC, Rhagfyr 2016).

'Y dewis ehangaf o bynciau i ddysgwyr Cymru'....heblaw eich bod yn dilyn addysg Gymraeg! Ym mis Medi, ni fydd cwrs Seicoleg TGAU blwyddyn 10 yn rhedeg yn fy ysgol am y tro cyntaf ers 2009, tra bod yr ysgol cyfrwng Saesneg ychydig filltiroedd i ffwrdd, yn cychwyn ar gwrs Seicoleg TGAU newydd yn Saesneg trwy AQA. Yr unig reswm pam nad wyf gallu cynnig y pwnc yw oherwydd ein bod yn dysgu drwy'r Gymraeg. Mae pedair canolfan Gymraeg arall yn yr un sefyllfa.

Mae angen Seicolegwyr sy'n gallu trafod eu pwnc drwy'r Gymraeg. Wrth amddifadu disgyblion cyfrwng Cymraeg rhag y cyfle i astudio Seicoleg TGAU drwy'r Gymraeg, dyna golli 144 myfyriwr y flwyddyn fyddai efo'r potensial o gyfrannu at Seicoleg – fel athro, darlithydd, therapydd, ymchwilydd a.y.b drwy'r Gymraeg yn hyderus oherwydd bod y derminoleg berthnasol yn gyfarwydd iddynt.

Gwybodaeth ychwanegol:

Safodd 144 ymgeisydd bapur Uned 2 TGAU Seicoleg CBAC drwy'r Gymraeg i orffen y cwrs yn 2015, a 5 canolfan yn ei gyflwyno, felly mae potensial o niferoedd sylweddol, nid llond llaw. Rwyf wedi trefnu y byddai tri arholwr Seicoleg profiadol ar gael i weithio i unrhyw Fwrdd Saesneg fel na fyddai angen cyfieithu unrhyw sgriptiau (atebion) ymgeiswyr, ond y papur ei hun. Yr unig Fwrdd Saesneg wnaeth hyd yn oed ystyried y cais (gen i, nid CC), oedd Pearson, ond gwrthod wnaethon nhw yn y diwedd gan ddweud 'y byddai angen Cymry Cymraeg ar bob lefel o gynhyrchu'r papurau'. Mae hynny'n nonsens llwyr oherwydd dydy hynny ddim yn digwydd hyd yn oed yn CBAC ble mae'r Prif Arholwr a'r Swyddog Pwnc yn ddi-Gymraeg! Nid wyf yn beio'r Byrddau, oherwydd pam dyle nhw fynd i'r drafferth os nad oes rhaid iddyn nhw? Ar Gymwysterau Cymru y mae'r bai am eu polisi llipa, nad yw'n amddiffyn hawliau dysgwyr cyfrwng Cymraeg. Byddai hi wedi bod yn bosibl creu elfen o gystadleuaeth rhwng y Byrddau Saesneg trwy roi blaenoriaeth i rai a fyddai'n agored i'r syniad o gynnig opsiwn Cymraeg, ond doedd dim ymdrech i wneud hyn o gwbl. Mae hyn yn hollol annerbyniol yn y Gymru Fodern. Os ydy Cyrff Dyfarnu Saesneg yn cael cynnig pynciau yng Nghymru, rhaid gwneud yn glir iddyn nhw bod angen cynnig papur Cymraeg ble mae cais rhesymol dros wneud hyn.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Wreccsam
- Gogledd Cymru

Sicrhau Cydraddoldeb Cwricwlwm i Ysgolion Cymraeg

Y Pwyllgor Deisebau | 7 Tachwedd 2017

Petitions Committee | 7 November 2017

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil:

Rhif y ddeiseb: P-05-783

Teitl y ddeiseb: **Sicrhau Cydraddoldeb Cwricwlwm i Ysgolion Cymraeg**

Testun y Ddeiseb: Rwyf yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i atal Cymwysterau Cymru rhag parhau i wahaniaethu yn erbyn dysgwyr cyfrwng Cymraeg, a sicrhau cydraddoldeb ieithyddol o ran cwricwlwm ysgol.

Yn 2015, penderfynodd CBAC ollwng Seicoleg TGAU oherwydd niferoedd ymgeiswyr cymharol fach (37 canolfan – 5 yn rhai cyfrwng Cymraeg gyda 144 ymgeisydd cyfrwng Cymraeg bob blwyddyn). Oherwydd hyn, rhoddwyd gwahoddiad gan Gymwysterau Cymru (CC) i'r Cyrff Dyfarnu Saesneg; AQA, OCR, Pearson–Edexcell, gynnig y pwnc hwn, a rhai eraill e.e. Economeg, yng Nghymru.

Yn anffodus, ac yn anghrediniol, ni roddwyd unrhyw bwysau arnynt i gynnig y pynciau yma yn y Gymraeg. Ymateb Cymwysterau Cymru i hyn yw dweud y byddai'r Cyrff Saesneg yn gwrthod cynnig pynciau yng Nghymru yn gyfan gwbl pe tase nhw yn cael eu gorfodi i gynnig opsiwn Cymraeg, a bod CC yn ceisio sicrhau 'y dewis ehangaf o bynciau i ddysgwyr Cymru' (Cylchlythyr CC, Rhagfyr 2016).

'Y dewis ehangaf o bynciau i ddysgwyr Cymru'....heblaw eich bod yn dilyn addysg Gymraeg! Ym mis Medi, ni fydd cwrs Seicoleg TGAU blwyddyn 10 yn rhedeg yn fy ysgol am y tro cyntaf ers 2009, tra bod yr ysgol cyfrwng Saesneg ychydig filltiroedd i ffwrdd, yn cychwyn ar gwrs Seicoleg TGAU newydd yn Saesneg trwy AQA. Yr unig reswm pam nad wyf gallu cynnig y pwnc yw oherwydd ein bod yn dysgu drwy'r Gymraeg. Mae pedair canolfan Gymraeg arall yn yr un sefyllfa.

Mae angen Seicolegwyr sy'n gallu trafod eu pwnc drwy'r Gymraeg. Wrth amddifadu disgyblion cyfrwng Cymraeg rhag y cyfle i astudio Seicoleg TGAU drwy'r Gymraeg, dyna gollu

144 myfyriwr y flwyddyn fyddai efo'r potensial o gyfrannu at Seicoleg – fel athro, darlithydd, therapydd, ymchwilydd a.y.b drwy'r Gymraeg yn hyderus oherwydd bod y derminoleg berthnasol yn gyfarwydd iddynt.

Safodd 144 ymgeisydd bapur Uned 2 TGAU Seicoleg CBAC drwy'r Gymraeg i orffen y cwrs yn 2015, a 5 canolfan yn ei gyflwyno, felly mae potensial o niferoedd sylweddol, nid llond llaw. Rwyf wedi trefnu y byddai tri arholwr Seicoleg profiadol ar gael i weithio i unrhyw Fwrdd Saesneg fel na fyddai angen cyfieithu unrhyw sgriptiau (atebion) ymgeiswyr, ond y papur ei hun.

Yr unig Fwrdd Saesneg wnaeth hyd yn oed ystyried y cais (gen i, nid CC), oedd Pearson, ond gwrthod wnaethon nhw yn y diwedd gan ddweud 'y byddai angen Cymry Cymraeg ar bob lefel o gynhyrchu'r papurau'. Mae hynny'n nonsens llwyr oherwydd dydy hynny ddim yn digwydd hyd yn oed yn CBAC ble mae'r Prif Arholwr a'r Swyddog Pwnc yn ddi-Gymraeg!

Nid wyf yn beio'r Byrddau, oherwydd pam dyle nhw fynd i'r drafferth os nad oes rhaid iddyn nhw? Ar Gymwysterau Cymru y mae'r bai am eu polisi llipa, nad yw'n amddiffyn hawliau dysgwyr cyfrwng Cymraeg. Byddai hi wedi bod yn bosibl creu elfen o gystadleuaeth rhwng y Byrddau Saesneg trwy roi blaenoriaeth i rai a fyddai'n agored i'r syniad o gynnig opsiwn Cymraeg, ond doedd dim ymdrech i wneud hyn o gwbl.

Mae hyn yn hollol annerbyniol yn y Gymru Fodern. Os ydy Cyrff Dyfarnu Saesneg yn cael cynnig pynciau yng Nghymru, rhaid gwneud yn glir iddyn nhw bod angen cynnig papur Cymraeg ble mae cais rhesymol dros wneud hyn.

Penderfyniad CBAC i beidio â chynnig Seicoleg TGAU

Ym mis Tachwedd 2015, [cyhoeddodd CBAC gylchlythyr](#) yn nodi na fyddent yn parhau i gynnig Seicoleg TGAU (cyfrwng Cymraeg a Saesneg), gan ddweud:

Mae diwedd cyfnod datblygu'r cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch diwygiedig gerllaw a'r cyfnod cyflwyno ar fin dechrau. Oherwydd hynny, bydd yr hen fanylebau'n dechrau cael eu tynnu'n ôl yn raddol. Yn y rhan fwyaf o achosion disodlir hen gymhwyster gan gymhwyster diwygiedig cyfwerth. **Fodd bynnag, ni fydd rhai o'r cymwysterau yn cael eu diwygio. Rydym yn cyfathrebu â chi yn awr er mwyn dwyn eich sylw at y cymwysterau hynny ac i roi rybudd buan y byddant yn cael eu tynnu'n ôl.**

Yn achos rhai cymwysterau, ystyrir bod nifer y dysgwyr yng Nghymru yn rhy isel i unrhyw gorff dyfarnu ddatblygu cymwysterau i'w dyfarnu yng Nghymru yn unig. Os oes cymhwyster

diwygiedig yn y pynciau hyn ar gael yn Lloegr, mae Cymwysterau Cymru wedi gwahodd cyrff dyfarnu i wneud cais iddynt gael eu dynodi ganddyn nhw i'w defnyddio mewn perthynas â rhaglenni dysgu a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru. Un o'r cymwysterau hyn yw Seicoleg TGAU a gynigiwyd gan y corff dyfarnu [Pearson](#) i'w addysgu o 2017 ymlaen. Mae'r cymhwyster ar gael drwy gyfrwng y Saesneg yn unig.

Cymwysterau Cymru

Cymwysterau Cymru yw'r corff annibynnol sy'n rheoleiddio cymwysterau yng Nghymru ac mae'n gyfrifol am gymeradwyo a dynodi cymwysterau a ariennir yn gyhoeddus. Dyma'r prif bwyntiau yn ymateb Cymwysterau Cymru i'r ddeiseb:

- Nid oes unrhyw ofyniad ar gyrff dyfarnu (sy'n gyrff masnachol) i gynnig unrhyw gymhwyster rheoleiddiedig;
- Nid yw nifer y dysgwyr yng Nghymru sy'n astudio pwnc penodol bob amser yn ddigonol i sicrhau bod y gwaith o ddatblygu cymhwyster ar wahân yn atyniadol yn fasnachol neu'n ymarferol;
- Er y gall Cymwysterau Cymru osod amodau cydnabyddiaeth ar gyrff dyfarnu a gaiff eu rheoleiddio, y corff dyfarnu sy'n penderfynu a ddylid derbyn yr amodau a chynnig cymwysterau neu roi'r gorau i'w cynnig yn gyfan gwbl;
- Nid yw pob corff dyfarnu yn dyfarnu pob pwnc; caiff rhai eu dyfarnu gan un corff yn unig gan nad oes ond prin ddigon o ddysgwyr arfaethedig i'w gwneud yn ymarferol cynnig y cymhwyster bl;
- Mae Cymwysterau Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff dyfarnu gyhoeddi eu polisi ar asesu drwy gyfrwng y Gymraeg, ond nid ydynt yn ei gwneud yn orfodol iddynt gynnig darpariaeth Gymraeg rhag iddynt benderfynu peidio â chynnig eu cymhwyster yng Nghymru o gwbl.

Mewn perthynas â Seicoleg TGAU, mae Cymwysterau Cymru yn datgan:

- Nid oedd Pearson yn bwriadu cynnig TGAU Seicoleg drwy gyfrwng y Gymraeg i'w addysgu o fis Medi 2017 ymlaen gan nad oedd digon o arholwyr a phersonél sicrhau ansawdd a oedd â'r sgiliau Cymraeg angenrheidiol;
- Cynhaliwyd trafodaethau rhwng Pearson a CBAC i weld a allai Pearson ddefnyddio rhai o arholwyr CBAC, ond ni lwyddwyd i ddatrys y broblem mewn pryd i gymhwyster diwygiedig fod ar gael yn y Gymraeg erbyn Medi 2017;
- Oherwydd yr amserlen ar gyfer y cwricwlwm newydd, bydd y cymwysterau diwygiedig yn debygol o redeg tan 2026 felly mae'n bosibl y gellid datblygu cymhwyster newydd i helpu i ddiwallu'r angen.

Camau y gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru eu cymryd

Yn y [Cyfarfod Llawn ar 7 Mawrth 2017](#), gofynnodd Llyr Gruffydd i Jane Hutt, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip, am ddatganiad gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes am y prinder adnoddau addysgu dwyieithog sydd ar gael a'r effaith a gaiff hyn ar addysg Gymraeg. Dywedodd Llyr Gruffydd (Cadeirydd)

" ond mi wnes i ddeall heddiw na fydd TGAU seicoleg yn cael ei dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn un lle y flwyddyn nesaf, a hynny oherwydd yr ansicrwydd ynglŷn ag argaeledd yr adnoddau angenrheidiol. Mae ysgolion Cymraeg Cymru wedi penderfynu peidio â darparu'r cwrs, ac mae ysgolion dwyieithog wedi dewis gwneud y cwrs Saesneg oherwydd eu bod nhw'n gwybod bod yr adnoddau ar gael. Nawr, y perygl yn hynny, wrth gwrs, yw yn y dyfodol bydd yr awdurdodau yn dweud nad oes galw am y fath adnoddau, ac felly rŷm ni'n gweld cylchdro dieflig gwbl annerbyniol yn datblygu, yn fy marn i, ac mae hynny filiwn o filltiroedd i ffwrdd, wrth gwrs, o ble dylem ni fod os ydym ni am weld miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050. Mae e yn gadael ysgolion Cymraeg i lawr. Mae'n gadael athrawon sydd am ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg i lawr, ac mae'n gadael disgyblion sydd am gael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg i lawr. Ac mae e'n tanseilio pob uchelgais sydd gan y Llywodraeth yma o safbwynt yr iaith Gymraeg. Felly, mi fyddwn i'n gofyn yn garedig i'r Gweinidog perthnasol ddod ger ein bron ni i esbonio'n union beth mae'r Llywodraeth yn ei wneud, a sut maen nhw'n tybio bod hyn yn dderbyniol mewn unrhyw ffordd. "

Wrth ymateb, dywedodd Jane Hutt:

" Mae'n bwysig iawn ein bod yn cael tystiolaeth i gadarnhau'r pryderon hyn sydd wrth wraidd y cwestiwn hwn heddiw. Yn ôl yr hyn a ddeallaf i, o ran seicoleg, bydd yn peidio â bod yn y Gymraeg a'r Saesneg yn 2018—Cymraeg a Saesneg—felly mae'n amlwg fod hynny yn rhan fawr o'r penderfyniad hwnnw, a hefyd, bod y llyfr bioleg TGAU ar gael fis Hydref y llynedd. Felly, nid ydym yn gwybod pam oedd yr ysgol dan sylw—yr wyf yn deall bod y cwestiwn hwn wedi deillio yn rhannol o'r fan honno—heb gael copi. Mae'n amlwg, felly, bod hwn yn fater o archwilio beth sy'n cael ei honni o ran cael y dystiolaeth ac ymateb priodol. "

Yn ei hymateb i'r ddeiseb hon, cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg mai mater i Gymwysterau Cymru yw cymeradwyo a dynodi cymwysterau fel Seicoleg TGAU.

